# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18fed Mawrth 2013 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**PRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| A Morris Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| R J Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| W I Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro yr Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); R Fairhead (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu)); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Cyhoeddus); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| C Guy-Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Mewn perthynas â'r adroddiad rhan II ar brosiect gorsaf dân ac ambiwlans Wrecsam, cynghorwyd yr aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan y Clerc i ddatgan buddiant personol ac y byddai hynny'n galluogi iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio. Fodd bynnag, petai'r drafodaeth yn troi at dir, byddai angen i aelodau o CBS Wrecsam ddatgan buddiant rhagfarnol.

1.2 **PENDERFYNWYD nodi bod y Cynghorwyr A Evans, G Lowe, P Pemberton a J R Skelland yn datgan buddiant personol ynghylch eitem 20 ar yr agenda.**

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 RHAGFYR 2012

2.1 Cafodd y cofnodion o gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2012 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 Gofynnodd y Cyng. D J Miles i gywiriad gael ei wneud i baragraff 9.6 gan nad oedd wedi gofyn ynghylch prynu pedwerydd peiriant ALP. Ymwneud ag amseroedd cyrraedd yr oedd ei gwestiwn ef.

2.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion, yn ddarostyngedig i ddiwygio paragraff 9.6.**

3 MATERION YN CODI

3.1 13.2 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu – rhoddodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau y bydd ef a'r Cadeirydd yn cyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar 27ain Mawrth 2013.

4 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

4.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. A M Jones a'r Cyng. M Ll Davies iddynt rhwng Ionawr a Mawrth 2013 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

4.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASU

5.1 Rhoddodd y Clerc wybod i'r Aelodau fod cynghorau ledled y gogledd yn datblygu polisi cyfryngau cymdeithasu a fydd yn cael ei argymell i holl gynghorau'r gogledd yn eu cyfarfodydd cyffredinol blynyddol ym mis Mai/Mehefin, a chaiff y polisi hefyd ei gyflwyno i gyfarfod blynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin. Esboniodd y Clerc fod y wasg wedi gofyn am gael defnyddio Twitter yn y cyfarfod a bod caniatâd wedi ei roi.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a ddarparwyd.**

6 ALLDRO AMCANOL 2012-2013

6.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad, a rhoi gwybod i'r Aelodau mai'r tanwariant amcangyfrifiedig am y flwyddyn ariannol gyfredol oedd £31,787. Roedd yr adroddiad yn nodi'r amrywiadau i'r gyllideb, ac esboniodd y Trysorydd y gofynnwyd i'r Aelodau gytuno mewn egwyddor fod cyfraniad o'r tanwariant yn cael ei neilltuo i gronfeydd wrth gefn i ymorol am gostau posibl prosiect Wrecsam, a byddai hyn yn cael ei drafod yn fanylach o dan yr adroddiad rhan II.

6.2 I ateb cwestiwn gan y Cyng. Dunbar ynghylch incwm a gwerthu cerbydau a oedd wedi dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol eglurwyd bod peiriannau tân yn cael eu datgymalu a'u sgrapio, yn ôl y cyngor a roddir, a hynny er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gwerthu ymlaen a'u defnyddio i ddibenion eraill. Mae cerbydau fflyd ysgafn yn cael eu gwerthu mewn arwerthiannau.

6.3 Holodd y Cyng. Skelland am y cynnydd o £19,000 mewn ffioedd archwilio, a chafodd yr Aelodau wybod y byddai rhagor o fanylion am y mater hwn yn cael eu darparu yn ystod y drafodaeth ar adroddiad rhan II.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig o £31,787 a chytuno mewn egwyddor i ddyrannu arian i'r cronfeydd wrth gefn fel y nodir uchod.**

7 YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

7.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i ymateb i ofynion Rheoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb 2013 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i sicrhau parch a thegwch i drigolion, aelodau etholedig, aelodau o'r staff a phob ymwelydd ag ardal Gogledd Cymru.

7.2 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad, ac esboniodd fod yr adroddiad blynyddol yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1af Ebrill 2011 a 31ain Hydref 2012, sef cyn gofynion y ddeddfwriaeth. Cafodd yr adroddiad blynyddol ei lunio yn unol â chyfarwyddyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr wybodaeth y dylid adrodd yn ei chylch yn yr adroddiad cyntaf. Er nad oedd hyn yn un o ofynion yr adroddiad, mae adroddiad blynyddol yr Awdurdod hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd hyd yn hyn wrth gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.

7.3 Gofynnodd y Cyng. McGuill beth fyddai'n digwydd petai aelod o'r staff ar y system RDS yn cael ei anafu ar ddyletswydd neu oddi ar ddyletswydd ac yn methu â pharhau â'i ddyletswyddau gweithredol. Esboniodd y PSTC Simmons y byddai'r anabledd yn cael ei asesu ac y byddai cyngor gan yr adran iechyd galwedigaeth yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa addasiadau sydd eu hangen i'w cynorthwyo i barhau yn eu gwaith. Os ystyrid bod yr unigolyn, ar ôl cyfnod o amser yn cynnwys adferiad, yn anaddas ar gyfer dyletswydd weithredol, byddai'r Gwasanaeth yn chwilio am gyfleoedd eraill sydd ar gael i'w leoli. Os na fyddai dewisiadau addas ar gael, byddai ymddeol ar sail afiechyd yn rhywbeth i'w ystyried ond byddai'n rhaid bodloni

rhai meini prawf i hyn fod yn opsiwn. Nodwyd hefyd y bydd y Gwasanaeth yn ceisio, yn y cam recriwtio hyd yn oed, gwneud addasiadau ar gyfer ymgeisydd sydd ag anabledd, ac ni fydd ymgeiswyr posibl yn cael eu cau allan o'r broses recriwtio o reidrwydd.

7.4 Roedd y Cyng. Pemberton yn bryderus ynghylch nifer y staff o gefndiroedd lleiafrif ethnig, ac yn bryderus y byddai'r Awdurdod yn cael ei weld fel un rhagfarnllyd. Rhoddodd y PSTC Simmons sicrwydd i'r Aelodau fod y gwasanaeth, yn ystod ymgyrchoedd recriwtio, wedi cymryd rhan mewn mentrau rhagweithiol i geisio annog mwy o ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r gymuned amrywiol yng Ngogledd Cymru. Dywedodd y Cyng. Lowe ei fod yn fodlon nad oedd dim i awgrymu unrhyw ragfarn, a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith.

7.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2011-2012, a chymeradwyo ei fod yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.**

8 DATGANIAD AR BOLISI CYFLOGAU

8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y datganiad ar bolisi cyflogau ar gyfer 2013/14.

8.2 Nodwyd ei bod yn ofynnol o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i'r Awdurdod lunio datganiad bob blwyddyn; rhaid iddo nodi polisïau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol ei brif swyddogion, ei weithwyr sy'n ennill y cyflogau isaf, a'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ei brif swyddogion a'r gweithwyr hynny nad ydynt yn brif swyddogion.

8.3 Holodd y Cyng. Dunbar am bolisi'r Awdurdod ar ganiatáu i brif swyddogion gael eu hailgyflogi ar ôl iddynt gymryd ymddeoliad gwirfoddol, a holodd a ddylid recriwtio swyddogion presennol i swyddi o'r fath yn hytrach nag ailgyflogi staff sydd wedi ymddeol. Esboniodd y Prif Swyddog fod polisi'r Awdurdod ar y mater hwn yn berthnasol i holl staff yr ochr weithredol, a chytunwyd arno flynyddoedd yn ôl er mwyn atal y Gwasanaeth rhag colli staff profiadol yn gymharol ifanc ar ôl iddynt gyrraedd eu gwasanaeth pensiynadwy. Ailddatganodd y PST mai polisi sy'n gymwys ar ôl ymddeol ac nid ar ôl dileu swydd yw hwn.

8.4 Rhoddodd y Clerc wybod i'r Aelodau y bydd yr adolygiad o gyflogau uwch swyddogion a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mehefin.

8.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad ar bolisi cyflogau am y flwyddyn ariannol i ddod, sef 2013/14.**

9 NEWIDIADAU I GYNLLUN CYDNABYDIAETH ARIANNOL YR AELODAU 2012

9.1 Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo newidiadau i Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol yr Awdurdod ar ôl i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ei ystyried.

9.2 Roedd yr Atodlen wedi cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym Mehefin 2012 a'i gyhoeddi ar ôl hynny. Yn Rhagfyr roedd y Panel wedi cynnal dadansoddiad manwl o atodlenni cydnabyddiaeth aelodau pob 'awdurdod perthnasol' ar gyfer 2012-13 ac wedi gofyn i un yr Awdurdod gael ei ddiwygio.

9.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ychwanegiadau i Atodlen Cydnabyddiaeth yr Awdurdod fel a ganlyn:**

**(i) bod datganiad yn cadarnhau "[nad] aethpwyd y tu hwnt i derfyn uchaf yr Uwch Gyflogau a osodwyd ar gyfer yr awdurdod" i gael ei ychwanegu at Atodiad 1;**
**(ii) bod cyfradd hawlio milltiroedd o 24c y filltir ar gyfer beic modur yn cael ei ychwanegu i'r atodlen dan Atodiad 3; a**
**(iii) bod adran 20 newydd yn cael ei hychwanegu at yr Atodlen sy'n cynnwys y datganiadau a ganlyn fel yr amlinellir yn 5 (c) uchod:**

- **bod datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd yn ei le**
- **bod disgrifiadau o rôl deiliaid swyddi Uwch Gyflogau yn eu lle**
- **bod cofnodion yn cael eu cadw ynghylch presenoldeb cynghorwyr**
- **bod adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi gan gynghorwyr, a'u cyhoeddi ar wefan y cyngor.**

10 CYNLLUN I LEIHAU RISG A GWELLA 2013-14

10.1 Cafodd y Cynllun drafft i Leihau Risg a Gwella 2013-14 ei gyflwyno i'r Aelodau ei gymeradwyo cyn iddo gael ei gyhoeddi. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru lunio Cynllun Gwella, ymgynghori ei gylch gyda'r cyhoedd, a'i gyhoeddi.

10.2 Ar ôl ymgynghori ynghylch yr amcanion gwella a gynigir, roedd y Panel Gweithredol wedi ystyried yr ymatebion a ddaeth i law ac wedi cymeradwyo llunio drafft terfynol o'r Cynllun i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn.

10.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft terfynol o'r Cynllun Gwella ar gyfer 2013-14 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd mis Mawrth 2013.**

11 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TYRSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

11.1 Cafodd yr Aelodau y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2013/14. Esboniodd y Trysorydd fod gan y Pwyllgor Archwilio bŵer dirprwyedig i adolygu'r dogfennau hyn yn fanylach, a gwnaed hyn yn ei gyfarfod ar 28ain Ionawr 2013. Yn y cyfarfod hwnnw, gofynnodd yr Aelodau am y rheswm dros y cynnydd rhagamcanol mewn gwariant cyfalaf rhwng

2013/14 a 2014/15, ac o ganlyniad mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen gyfalaf a'i fforddiadwyedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Awdurdod.

11.2 I ateb cwestiwn am israddio graddiad A driphlyg y DU, cadarnhawyd fod rhagor o le wedi ei roi yn y gyllideb i reoli taliadau petai cyfraddau llog yn codi. Nododd yr Aelodau y byddai angen, petai cyfraddau llog yn codi 1%, gyllideb ychwanegol o £100,000 ar gyfer 2013/14 a gofynnwyd iddynt gymeradwyo trosglwyddo £100,000 o'r Gronfa Gyffredinol i gronfa neilltuedig i ymorol am gynnydd posibl yn y cyfraddau llog. Cadarnhawyd hefyd bod ardal yr ambiwlans o orsaf Glannau Dyfrdwy wedi ei phrynu gan ddefnyddio arian refeniw.

11.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/14, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw;**

**(ii) trosglwyddo £100,000 o'r Gronfa Gyffredinol i Gronfa Log.**

12 ADOLYGU PENODIAD STATUTOL Y SWYDDOG MONITRO A'R CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Aeth Colin Everett allan o'r ystafell tra'r oedd yr adroddiad hwn yn cael ei drafod.

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Tân i geisio cymeradwyaeth i adnewyddu'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu clerc, swyddog monitro, cyngor cyfansoddiadol a gwasanaethau eraill i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cafodd yr Aelodau wybod bod rôl y clerc wedi ei ddarparu, ers ei greu, trwy gytundeb gydag un o'r awdurdod lleol.

12.2 Daeth y cytundeb gyda Chyngor Sir y Fflint i ben ym Mawrth 2012 ond cytunwyd i ymestyn y cytundeb am gyfnod o flwyddyn oherwydd etholiadau'r awdurdodau lleol a'r Awdurdod newydd o ganlyniad i hynny. Cynhaliwyd adolygiad o'r penodiad statudol er mwyn gweld a ellir darparu'r gwasanaethau mewn ffordd arall, ond yr argymhelliad i'r Awdurdod oedd adnewyddu'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Sir y Fflint. Nododd yr Aelodau fod y ffi am y cytundeb wedi ei ailnegodi, ac wedi ei ostwng i £11,000 y flwyddyn.

12.3 Gofynnodd y Cyng. Skelland a ystyriwyd cydweithio â'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Esboniodd y PST fod y Gorchymyn Cyfunol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gael swyddog monitro annibynnol. Er bod ystyriaeth wedi ei roi i rannu swyddog gyda'r ddau ATA arall, byddai hyn yn broblemus oherwydd y pellter teithio rhwng y tri gwasanaeth tân ac achub ac oherwydd bod y ddau ATA arall hefyd yn tueddu i gyfarfod ar yr un dyddiadau â chyfarfodydd ATA y Gogledd.

12.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adnewyddu'r cytundeb lefel gwasanaeth cyfredol gyda Chyngor Sir y Fflint i ddarparu clerc, swyddog monitro, cyngor cyfansoddiadol a gwasanaethau eraill i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.**

13 SEFYDLU CYFAMODAU CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

13.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gadarnhau eu bod yn cymeradwyo bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cytuno i Gyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

13.2 Esboniodd y DBST fod y Gweinidog blaenorol dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, wedi annog pob awdurdod lleol a'u partneriaid, gan gynnwys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, i greu cyfamodau cymunedol gyda Chymuned y Lluoedd Arfog.

13.3 Bydd y cyfamodau'n sicrhau nad yw cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn dioddef unrhyw anfantais o ganlyniad i'w rôl flaenorol, a byddant yn annog rhoi triniaeth deg. Er mai gwirfoddol yw'r cyfamodau, mae'r pedwar awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru wrthi'n datblygu eu cyfamodau eu hunain, a gallai'r rhain gael eu cyflwyno yn y dyfodol i'r Awdurdod eu cadarnhau. Roedd y Cyng. Lewis yn cynnig bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r holl gyfamodau i gyd gyda'i gilydd, a chytunwyd i wneud hyn.

13.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cadarnhau eu bod yn cytuno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru lofnodi, fel partner cydnabyddedig, Gyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;**

**(ii) cymeradwyo bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn llofnodi, fel partner cydnabyddedig, Gyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog ar gyfer yr awdurdod eraill, sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd pan fyddant yn eu lle.**

Ar yr adeg hon, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog newydd a'r Gweinidog blaenorol, sef Lesley Griffiths AC a Carl Sargeant AC, yn dilyn ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru.

14 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau nodi a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Safonau.

14.2 Cadarnhaodd y Clerc na fu unrhyw faterion pryderus yn ymwneud ag aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn; felly ni chafodd unrhyw faterion eu cyfeirio i'r pwyllgor ymchwilio iddynt na phenderfynu yn eu cylch. Fodd bynnag, darparwyd hyfforddiant i'r aelodau ynglŷn ag ymdrin â chŵyn ynghylch aelod petai hynny'n digwydd.

14.3 **PENDERFYNWYD nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

15 Y BROSES BENODI AR GYFER SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

15.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

15.2 Gofynnodd y Cyng. Lewis am esboniad pam fod angen llenwi'r swydd. Roedd y PST yn gyndyn i ddarparu esboniad mewn cyfarfod cyhoeddus oherwydd mai mater staffio ydoedd, a gofynnodd y Clerc i'r adroddiad gael ei symud i ran II o'r cyfarfod.

15.3 **PENDERFYNWYD symud yr adroddiad i ran II o'r cyfarfod.**

16 COFNODION ER GWYBODAETH

16.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn er gwybodaeth:

- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28ain Ionawr
- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

Cyn i'r cyfarfod gael ei symud i ran II, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r cyfarfod y bydd y Cyng. W I Hughes yn sefyll i lawr cyn yr etholiad awdurdod lleol sydd ar y gweill ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Hughes am ei gefnogaeth i'r Awdurdod Tân ac Achub.

Yna, gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc pam fod y cyfarfod yn cael ei symud i ran II. Ar fater yr adroddiad ar brosiect tân ac ambiwlans Wrecsam, ategodd y Clerc fod materion masnachol yn cynnwys trosglwyddo tir yn debygol o gael eu trafod. Cafodd eitem 17 ar yr agenda ei symud i ran II oherwydd y goblygiadau o ran staff.

17 PROSIECT TÂN AC AMBIWLANS WRECSAM

17.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i geisio penderfyniad gan yr Aelodau ynghylch p'un ai i barhau â datblygiad gorsaf dân ac ambiwlans ar y cyd yn Wrecsam ynteu i dynnu allan.

17.2 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad, ac esboniodd y byddai angen i'r Aelodau benderfynu ar gamau gweithredu i ymdrin â'r materion sydd yn yr adroddiad. Talodd y PST deyrnged i Stephen Roberts a Liz Bryan a phawb am eu holl waith ar y prosiect hyd yn hyn.

17.3 Atgoffwyd yr Aelodau gan y PSTC Claydon am gefndir y prosiect, sef bod Prif Swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi cydnabod yn 2005 ei bod yn bosibl cydweithio ar strategaeth ystadau dymor hir pob Gwasanaeth. Ar y pryd roedd YGAC yn bwriadu darparu gorsaf fawr yn ardal Wrecsam, a chan fod HGC a GTAGC hefyd yn ystyried cyfleusterau newydd yn Wrecsam gwnaed gwaith paratoadol ar y posibilrwydd o gael gorsaf ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth brys. Yn dilyn adolygiad mewnol penderfynodd HGC dynnu allan o'r prosiect ac aeth GTAGC ac YGAC ymlaen i weithio ar gael gorsaf dân ac ambiwlans ar y cyd.

17.4 Yn ogystal â'r adroddiad a gyflwynwyd, roedd yr Aelodau wedi cael copïau o ohebiaeth rhwng swyddogion YGAC a GTAGC a hefyd ddarnau o'r adroddiad ar yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar safle Croesnewydd.

17.5 Y sefyllfa ddiweddaraf oedd bod y Panel Gweithredol wedi trafod y prosiect yn ei gyfarfod ar 4ydd Chwefror a bod yr Aelodau wedi penderfynu argymell i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn:

(i) bod yr Awdurdod yn tynnu allan o'r prosiect oni bai ei fod yn gallu dod â'r prosiect o fewn y gyllideb ac yn gallu darparu gorsaf sy'n diwallu anghenion yr Awdurdod o fewn cyfnod pendant, ac yn cychwyn gwaith ar ddewis arall, sef ailddatblygu'r safle ar Ffordd Bradley neu ryw safle addas arall yn ardal Wrecsam;
(ii) bod archwilydd allanol yn cael ei benodi i gynnal archwiliad o'r prosiect hyd yn hyn.

17.6 Nodwyd mai'r bwriad oedd i'r archwiliad gael ei gychwyn ar unwaith.

17.7 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau am ei bryderon ynghylch cost y prosiect, a chynghori ynghylch pwyso a mesur risgiau i'w hystyried ar y gwahanol opsiynau sydd ar gael a'i bod yn bwysig i'r Awdurdod ddangos ei fod wedi mynd drwy broses feddwl briodol i ddod i gasgliad a phenderfyniad cytbwys.

17.8 Ategodd y Clerc sylwadau a phryderon y Trysorydd ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Dywedodd y Clerc y byddai adroddiad archwilio o fantais, a hefyd awgrymodd ofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru i drafod y gost gan mai prosiect ar y cyd ydoedd.

17.9 Ar ôl cael trafodaeth lawn, gyda'r Aelodau'n cael cyfle i ofyn cwestiynau a chael eglurhad am wahanol faterion

17.10 **PENDERFYNWYD tynnu allan o'r prosiect ar y cyd ag YGAC a mynd ar ôl y dewis arall, sef ailddatblygu'r safle ar Ffordd Bradley neu ryw safle addas arall yn ardal Wrecsam, ond gan gydnabod y ffioedd am adael y byddai'n rhaid eu talu fel y nodir yn adran 27 o'r adroddiad hwn a'r perygl posibl i'n henw da o dynnu allan o'r prosiect. Mae hyn yn amodol ar ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r prosiect hyd yn hyn ac unrhyw ymateb gan Weinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru i'r cais gan y Prif Swyddog Tân am drafodaethau ynghylch dyfodol y prosiect hwn.**

Ar yr adeg hon, aeth holl swyddogion ATAGC allan o'r cyfarfod ac eithrio'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a Swyddog Cyswllt yr Aelodau.

18 Y BROSES BENODI AR GYFER SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

18.1 Yn gynharach yn y cyfarfod, roedd y Cyng. Lewis wedi gofyn pam fod angen llenwi swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân

esboniad i'r aelodau yn seiliedig ar faterion staffio, ac roedd yr Aelodau'n cytuno na fyddai'n briodol rhoi'r esboniad yn rhan I.

18.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r broses a gynigir isod:**

- **gosod hysbysebion erbyn diwedd Mawrth 2013**
- **y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 20ain Ebrill 2013**
- **llunio rhestr fer ac anfon gwahoddiadau i gyfweliad cychwynnol ddiwedd mis Ebrill**
- **swyddogion yn cyfweld ddechrau Mai – y dyddiad i'w gadarnhau**
- **panel yr aelodau yn gynnar ym mis Mai – y dyddiad i'w gadarnhau**
- **cadarnhau'r penodiad yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17eg Mehefin 2013.**

**(ii) cadarnhau y bydd yr aelodau canlynol yn ymuno â'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar y pwyllgor penodi:**
**Sir y Fflint – Cyng. H McGuill;**
**Conwy – Cyng. D Miles;**
**Wrecsam a Gwynedd – cynrychiolwyr i'w cadarnhau.**